



Caru Gwenyn
Bee Friendly



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Astudiaethau achos Gerddi Bro Ddyfi Gardens

Gan ddefnyddio garddio a gweithgareddau cysylltiedig, mae Gerddi Bro Ddyfi (www.gerddibroddyfigardens.co.uk) yn darparu lle cymunedol therapiwtig i bawb yn ardal Bro Ddyfi, ac yn enwedig y rhai sydd mewn perygl o eithrio cymdeithasol.



Maent yn anelu at weithio gyda natur i gynyddu bioamrywiaeth ac i arfer garddio organig. Yn 2017, cawsant statws Cyfeillgar i Wenyn, a blwyddyn ar ôl blwyddyn, maent wedi adeiladu ar eu llwyddiannau i sicrhau canlyniadau positif i bryfed peillio.

Mae'r ardd wedi sefydlu gweirglodd blodau gwyllt.

Maent yn cydnabod bod ffynonellau cynnar o baill a nectar yn bwysig, yn enwedig yn y gwanwyn pan fydd nythfeydd o bryfaid yn sefydlu ac yn datblygu larfa.

Yn 2017, o fewn eu gweirglodd blodau gwyllt cymunedol, penderfynwyd cynyddu'r ddarpariaeth o flodau gwyllt cynnar ar gyfer gwenyn a briallu mair a carpiog y gors.

Caiff y weirglodd ei thorri yn hwyr yn yr haf i ganiatâu i blanhigion flodeuo a hadu.



Trwy'r ardd, mae ardaloedd gwyllt gyda phlanhigion cyfeillgar i bryfed megis gwiberlys, llygad-llo mawr, erwain, danadl poethion, efwr fach a llyriaid.

Caiff ardaloedd o laswellt hir eu torri mewn cylchdro bob yn ail flwyddyn, tra bod yr ardaloedd â gwair byrrach wedi eu plannu gyda blodau cyfeillgar i bryfed peillio sy'n tyfu'n isel megis y feddyges las, meillion a clust -y-llygoden euraid.

Mae gwrychoedd/perthi yn cynnig bwyd, lloches, safleoedd gaeafu a choridorau i bryfed peillio symud ynddynt. Mae gan yr ardd nifer o wrychoedd/perthi.

Bu'r garddwyr yn plannu rhafnwydd, corswig, helyg a gwrychoedd/perthi celyn yn benodol ar gyfer pryfed peillio a bywyd gwyllt. Plannwyd llwyn bwytadwy brodorol, sy'n cynnwys draenen ddu, ysgaw, rhosod gwyllt a chyll.



Caru Gwenyn Bee Friendly



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae blodau sy'n gyfeillgar i bryfed peillio megis swllt dyn tlawd, garleg y berth, moron gwyllt a blodau neidr wedi'u plannu ar waelod y gwrychoedd.

Fel rhan o'u dathliad 10 mlynedd, plannwyd perllan gymunedol newydd gyda nifer o berthi a choed ffrwythau, fydd yn darparu neithdar a phaill gwerthfawr. Mae pryfed peillio yn gwella pwysau'r cnwd, felly bydd cael planhigion da ar gyfer pryfed peillio yn yr ardd yn helpu i greu cnwd mawr.

Mae ardal gynhyrchiol yn y gerddi ar gyfer tyfu llysiau a pherlyisiau organig. Caiff blodau bwyadwy fel blodyn trysor unlliw, capan cornicyll a thafod yr ych eu tyfu fel planhigion cydymaith, sy'n denu pryfaid buddiol.

Mae'r rhain yn helpu gyda rheoli plaod yn naturiol, gan na chaiff unrhyw gemegau eu defnyddio yn y gerddi.

Caiff gwrteithi gwyrdd eu tyfu i wella ffrwythlondeb. Caiff rhai o'r rhain, megis *Phacelia* a meillion eu caniatâu i fynd i hâd, sy'n rhoi blodau a hadau cyfeillgar i fywyd gwyllt ychwanegol i'w casglu.

Pan oeddent am dynnu sylw at nodweddion meddyginiaethol y perlyisiau, datblygwyd gardd fechan apocethari.

Wrth greu yr ardd hon, casglwyd perlyisiau sydd hefyd yn benodol ar gyfer pryfed peillio.

Roedd y planhigion yn cynnwys:

saets, rosemari, *Echinacea*, balm lemwn, triaglog, teim, balm gwenyn, camomile, fioled, ffenigl, melyn yr hwyr, mintys y gath, eurwiall, y wermod wen, lliflys y mynydd a'r ferfain.



Crëwyd lloches bywyd gwyllt newydd yn yr ardd apothecari ond roeddent hefyd yn gwerthfawrogi yr hyn oedd ganddynt eisoes, gan gadw tô sedwm o loches flaenorol.

Cafodd y lloches bywyd gwyllt newydd ei greu gyda chymorth plant lleol. Caiff ei ddefnyddio fel lle addysgiadol ac ar gyfer hel bygiau.

Un o nodweddion trawiadol yr ardd yw y bordon neithdar, sy'n cynnwys blodau, glaswelltau a llwyni sy'n darparu neithdar dros dymor hir, yn ogystal ag uchder, strwythur a lloches.

Yn wahanol i'r weirglodd, ni chaiff yr ardal hon ei thorri yn yr haf ond caiff ei gadael drwy'r gaeaf.



Caru Gwenyn Bee Friendly



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae'r planhigion felly yn darparu ffynhonnell bwyd o ganol y tymor i'w ddiwedd. Mae pennau hadau a'r coesyn yn rhoi lloches i bryfed a bwyd i fywyd gwyllt.

Yn ogystal â bod yn dda i bryfed peillio, mae rhai o'r planhigion y maent wedi'u dewis hefyd yn edrych yn brydferth yn y gaeaf.

Mae'r rhain yn cynnwys:

cribau'r pannwr, ysgallen addurnol, cardoon, byddon chwerw, *Echinops* ritro, chwynnyn Joe pye, helyglys hardd, briweg boeth, *Echinacea*, tansi, *Ysgol Jacob*, *Verbena bonariensis*, llysiau'r-milwr coch, craf, blodyn mihangel, *Verbascum*, oregano, *Stipa tenuissima*, y bengaled ac umbellifer megis ffenigl, ffenigl-y-moch llaethog a pannas.



Mae'r garddwyr yn fwriadol yn ceisio creu lle cyfeillgar i natur sydd hefyd yn ddeniadol yn weledol.

Mae cael cyferbyniaeth rhwng ardaloedd mwy 'gwyllt' a llwybrau ac ymylon yn sicrhau nad yw'r ardal yn edrych fel ei fod heb dderbyn gofal, ond ei fod yn cael ei reoli'n bwrpasol i ddarparu prydfferthwch naturiol anffurfiol.

Maent am ddangos i ymwelwyr sut y gall garddio yn wahanol er lles pryfed peillio a bywyd gwyllt arall fod yn brydferth ac y gall pobl fabwysiadu'r dull hwn yn hytrach na dilyn dulliau garddio traddodiadol 'twt'.

Ethos y gerddi yw cyfranogiad cymunedol, gan ddysgu trwy arddio a bod yn weithgar yn yr awyr agored.

Caiff bod yn ymwybodol o bryfed peillio ei gynnwys yn yr hyn y maent yn ei wneud ac yn cael ei weld a'i egluro i'r rhai sy'n ymweld â'r gerddi.

Mae'r garddwyr wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau, sydd wedi cynnwys gŵyl pryfed peillio, noson wyfnod a diwrnodau gweirgloddiau.

Maent wedi cynnal nifer o weithgareddau gan gynnwys adnabod bygiau, teithiau cerdded, creu torchau, arlunio gyda phlanhigion, twrio am fwyd a chreu balmau o berlysiâu meddyginiaethol.

Maent hefyd wedi cynnal sgrysiâu ar sut i greu a chynnal gweirglodd blodau gwyllt ac ar ddirywiad pryfed peillio a phryfaid eraill.

Caiff digwyddiadau a gweithgareddau eu rhoi ar y cyfryngau cymdeithasol a'u hysbysebu yn y wasg leol.